Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

9. Asedau

9.6 Eiddo deallusol

Mae **Eiddo deallusol,** yn caniatáu i bobl fod yn berchen ar eu creadigedd a'u harloesedd eu hunain yn yr un modd ag y gallant fod yn berchen ar eiddo ffisegol. Gall perchennog Eiddo Deallusol (ED) reoli'r defnydd ohono a chael ei wobrwyo am y defnydd a wneir ohono, ac mae hyn yn annog rhagor o arloesedd a chreadigedd er budd pob un ohonom.

Mewn rhai achosion mae ED yn codi'r mater o warchod syniadau ond mewn meysydd eraill, bydd yn rhaid ymhelaethu ar syniad cyn y gall gwarchodaeth godi. Ni fydd yn bosib, yn aml, gwarchod ED ac ennill hawliau ED oni bai fod cais wedi'i gyflwyno amdanynt a'u bod wedi'u caniatáu, ond mae rhywfaint o warchodaeth ED, fel hawlfraint, yn codi'n otomatig, heb orfod cofrestru, cyn gynted ag y ceir cofnod ar ryw ffurf neu'i gilydd, o'r hyn sydd wedi'i greu.

Dyma'r pedwar prif fath o ED:

- **Patentau** ar gyfer dyfeisiau - cynnyrch a phrosesau newydd a gwell y gellir eu defnyddio ym maes diwydiant.
- **Nodau masnach** i adnabod brandiau - nwyddau a gwasanaethau sy'n caniatáu gwahaniaethu rhwng gwahanol fasnachwyr.
- **Dyluniadau** neu ymddangosiad y cynnyrch - yn achos rhan o'r cynnyrch neu'r cyfan ohono yn deillio o nodweddion, yn fwyaf arbennig, y llinellau, yr amlinellau, y lliwiau, y siâp, gwead neu ddefnyddiau'r cynnyrch ei hun neu'i addurniad.
- **Hawlfraint** ar gyfer deunydd - llenyddol ac artistig, cerddoriaeth, ffilmiau, recordiadau sain a darllediadau, gan gynnwys meddalwedd ac aml-gyfrwng.

Beth yw patent?

Mae patent yn rhoi hawl i ddyfeisiwr am gyfnod cyfyngedig o amser i atal eraill rhag gwneud, defnyddio neu werthu dyfais heb ganiatâd y sawl a'i dyfeisiodd. Cytundeb ydyw rhwng y dyfeisiwr a'r wladwriaeth, lle rhoddir monopoli tymor byr i'r dyfeisiwr yn gyfnewid am i'r dyfais gael ei wneud yn gyhoeddus.

Mae patentau'n ymdrin ag agweddau ymarferol a thechnegol ar gynnyrch a phrosesau. Mae'r rhan fwyaf o batentau ar gyfer gwelliannau cynyddol mewn technoleg sydd eisoes yn gyfarwydd - esblygiad yn hytrach na chwyldroad. Nid oes raid i'r dechnoleg fod yn gymhleth. Caiff dyfais â phatent ei chofnodi mewn dogfen batent.

Caiff dogfen batent wreiddiol cais am batent ei chyhoeddi gan swyddfa batentau. Yna, mae'r cais yn ychwanegu at y datblygiadau diweddaraf ar gyfer ceisiadau

diweddarach, a chaiff unrhyw un wneud sylwadau ar y cais. Yn aml iawn mae angen newid neu addasu'r ddogfen batent i fodloni'r amodau uchod cyn y gellir rhoi patent. Yna caiff fersiwn derfynol y ddogfen batent a ganiatawyd ei ailgyhoeddi. Os canfyddir rhagor o wybodaeth am y datblygiad diweddaraf ar ôl rhoi caniatâd, gellir addasu'r ddogfen batent a'i hailgyhoeddi drachefn. Mae hawliau patent yn diriogaethol; nid yw patent y DU yn rhoi hawliau y tu allan i'r DU. Mae hawliau patent yn para hyd am at 20 mlynedd yn y DU.

Nod masnach

Nod masnach yw unrhyw arwydd sy'n gallu gwahaniaethu nwyddau a gwasanaethau un masnachwr oddi wrth nwyddau a gwasanaethau masnachwr arall. Mae arwydd yn cynnwys geiriau, logos, lliwiau, sloganau, siapiau tri-dimensiwn ac weithiau synau ac ystumiau.

Mae nod masnach, felly, yn 'fathodyn' masnachol. Caiff ei ddefnyddio fel dull marchnata er mwyn i fasnachwyr allu adnabod cynnyrch masnachwr penodol. Er mwyn gallu ei gofrestru yn y DU, rhaid iddo hefyd allu cael ei gynrychioli mewn modd graffigol, hynny yw, mewn geiriau a/neu luniau.

Dyluniad

Mae'r dyluniad yn cyfeirio at ymddangosiad rhan neu'r cyfan o gynnyrch yn deillio, yn fwyaf arbennig, o nodweddion llinellau, amlinellau, lliwiau, gwead neu ddefnyddiau'r cynnyrch neu'i addurniad.

Yn y Deyrnas Unedig, caiff dyluniadau eu gwarchod gan dair hawl gyfreithiol:

- dyluniadau cofrestredig
- hawl dylunio heb ei gofrestru
- hawlfraint artistig

Mae cofrestru dyluniad yn rhoi'r hawl i berchennog dros ddyluniad eu cynnyrch, h.y. yr hawl am gyfnod cyfyngedig i atal eraill rhag gwneud, defnyddio na gwerthu cynnyrch o'r un dyluniad, neu sydd wedi ymgorffori'r dyluniad hwnnw, heb hawl. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw hawl dyluniad neu warchodaeth hawlfraint a allai fodoli'n otomatig yn y dyluniad.

Hawlfraint

Mae hawlfraint yn rhoi i'r rhai sy'n creu amrywiaeth eang o ddeunydd, fel llenyddiaeth, celf, cerddoriaeth, recordiadau sain, ffilmiau a darllediadau, hawliau economaidd sy'n galluogi iddynt reoli'r defnydd a wneir o'u deunydd mewn nifer o ffyrdd, fel gwneud copïau, cyhoeddi copïau i'r cyhoedd, perfformio'n gyhoeddus, darlledu a defnydd ar-lein. Mae hefyd yn rhoi hawliau moesol i gael ei adnabod fel y sawl sy'n creu rhai

mathau o ddefnyddiau, ac i wrthwynebu iddo gael ei ystumio neu'i lurgunio mewn unrhyw ffordd. (Caiff deunydd sy'n cael ei warchod gan hawlfraint ei alw'n 'waith'.)

Nid yw hawlfraint, fodd bynnag, yn gwarchod syniadau, na phethau fel enwau neu deitlau.

Pwrpas hawlfraint yw caniatáu i'r rhai sydd yn creu deunydd gael gwobrau economaidd am eu hymdrechion gan annog creadigedd a datblygu deunydd newydd at y dyfodol, sydd o fudd i bob un ohonom. Mae deunydd hawlfraint, fel arfer, yn ganlyniad i fedr creadigol a/neu lafur sylweddol a/neu fuddsoddiad a, heb ei warchod, byddai'n rhwydd iawn i eraill ymelwa o'r deunydd heb dalu'r sawl a'i crëodd.

Rhaid, felly, sicrhau caniatâd gan berchennog yr hawlfraint cyn defnyddio deunydd hawlfraint mewn llawer o ffyrdd. Fodd bynnag, ceir ambell i eithriad, ac mae'n bosib na fydd yr hawlfraint yn effeithio ar ambell i fân-ddefnydd. Mae gwarchodaeth hawlfraint yn otomatig cyn gynted ag y ceir cofnod mewn unrhyw ffurf o'r deunydd sydd wedi'i greu, ac nid oes unrhyw gofrestriad swyddogol na ffurf ar ffi. Ond gall crëwyr gymryd rhai camau i helpu i brofi mai hwy sy'n berchen ar y deunydd.

Hawliau ED eraill

Er bod hawlfraint, dyluniadau, patentau a nodau masnach yn darparu amrywiaeth o warchodaeth ED, ceir sawl ffurf arall o ED a phynciau sy'n berthnasol i ED:

- Hawliau mewn perfformiadau i berfformwyr a'r rhai sy'n recordio perfformiadau.
- Gwarchodaeth i gyfrinachau masnach dan gytundebau cyfrinachedd.
- Hawliau cronfa ddata i rai mathau o gronfeydd data (mae'n bosib y caiff mathau eraill eu gwarchod gan hawlfraint).
- Gwarchodaeth i dopograffeg lled-ddargludydd.
- Hawliau bridiwr planhigion mewn mathau o blanhigion.
- Gwarchod arwyddion o darddiad daearyddol.
- Gwarchodaeth dros dechnoleg mynediad amodol ar gyfer darllediadau a mathau eraill o drawsyriant.
- Gwarchodaeth yn erbyn cystadleuaeth annheg dan gyfraith "twyll".
- Hawl cyhoeddi ar gyfer cyhoeddiad cyntaf deunydd y mae'r hawlfraint drosto wedi dod i ben.
- Gwarchodaeth yn erbyn osgoi dyfeisiau amddiffyn copïau.

Mewn rhai gwledydd, caiff hawliau cynhyrchwyr recordiadau sain a darlledwyr eu hadnabod fel hawliau cyfagos neu gysylltiedig. Yn y DU, mae cynhyrchwyr a darlledwyr yn cael gwarchodaeth hawlfraint yn eu deunydd.

Gwybodaeth bellach

Eiddo Deallusol
www.intellectual-property.gov.uk

Sefydliad Eiddo Deallusol y Byd
www.wipo.int

Sefydliad ED
www.ip-institute.org.uk

Rheoli Eiddo Deallusol
www.managingip.com

Swyddfa Batentau'r DU
www.patent.gov.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn
Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig *1088828*

Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org
Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:25/08/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk